


Caethwasiaeth Fodern



Mae caethwasiaeth fodern yn aml yn drosedd gudd, sy'n cynnwys caethwasiaeth, chaethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu mewn pobl. Mae ffactorau cyffredin yn golygu bod dioddefwr yn cael ei ddefnyddio, neu fwriedir eu defnyddio neu eu hecsbloetio er budd (ariannol fel arfer) rhywun arall, heb barchu eu hawliau dynol. Gallai'r cyflawnwyr sy'n ceisio cymryd mantais fod yn unigolion preifat, sy'n rhedeg busnesau bach, neu'n rhan o rwydwaith trosedd gyfundrefnol ehangach.

Nid yw dioddefwyr sy'n blant ac oedolion diamddiffyn yn gallu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth, ac o ganlyniad gall camfanteisio heb unrhyw elfen o orfodi gael ei ystyried yn gaethwasiaeth fodern.

Yn ôl yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, amcangyfrifwyd bod 13,000 o ddiodeffwyr posibl o gaethwasiaeth fodern yn y DU yn 2013, ac mae'r ffigur cyfredol yn debygol o fod llawer uwch. Yn 2018, atgyfeiriwyd mwy na 5,000 diodeffwr posib i'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol; roedd dros 40% o'r diodeffwyr hyn yn blant.

(Newyddion Iechyd Yr Amgylchedd, Mawrth 2019)

Mathau o gaethwasiaeth fodern

Camfanteisio ar weithwyr: Mae camfanteisio ar weithwyr fel arfer yn cynnwys cyflog annerbyniol o isel neu gostyngiadau gormodol i gyflog, ond nid dyma'r unig elfen. Er mwyn cael ei ystyried yn gaethwasiaeth fodern, bydd elfen o reoli, sy'n golygu nad oes modd i ddiodeffwyr adael ar eu liwt eu hunain ar gyfer swydd arall, neu fynegi dewis dros eu sefyllfa eu hunain.

Pan mae cyflawnwr yn cymryd mantais o blentyn neu unigolyn diamddiffyn, gellir cyflawni trosedd heb yr elfen o reoli.

Camfanteisio'n rhywiol: Mae diodeffwyr yn cael eu gorfodi i waith rhyw neu sefyllfaoedd sy'n gamdriniol yn rhywiol. Mae hyn yn cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant. Efallai bydd diodeffwyr yn cael eu hebrwng i'r DU ar addewid o waith cyfreithiol, neu eu symud o amgylch y DU i gael eu hecsbloetio'n rhywiol. Mewn rhai achosion, efallai eu bod yn gwybod y bydd yn waith rhyw, ond maent yn cael eu gorfodi i'r math a'r amllder nad oeddent wedi cytuno iddo.

Cam-fanteisio troseddol: Camfanteisio troseddol yn ecsbloetio unigolyn i gyflawni trosedd er budd rhywun arall. Er enghraifft, gallai diodeffwyr gael eu gorfodi i ddwyn o siopau, gan bobl,

mynd i briodas ffug, cyflawni twyll budd-daliadau, cardota, tyfu cyffuriau, megis ffermio canabis. Gall gamfanteisio troseddol gynnwys Llinellau Sirol.

Arwyddion i chwilio amdanynt:

Gellir canfod diodeffwyr caethwasiaeth fodern yn unrhyw le. Mae diwydiannau mwy penodol lle maent yn fwy amlwg, megis bariau ewinedd, golchfeydd ceir, amaethyddiaeth a physgota, safleoedd adeiladu a'r diwydiant rhyw. Mae sefyllfaoedd eraill risg uchel yn cynnwys pan mae galw am gynnydd sydyn o weithwyr yn y gweithlu, megis staff tymhorol, neu waith adeiladu ar gyfer digwyddiad mawr. Serch hynny, gall ddiodeffwyr basio

drwy ganolbwyntiau cludiant, gwasanaethau iechyd, a manau cyhoeddus eraill, neu eu canfod mewn cartrefi preifat.

Mae gan staff rheng flaen sy'n dod i gyswllt gyda diodeffwyr posib caethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl ddyletswydd i hysbysu'r Swyddfa Gartref dan Adran 52 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys i'r Heddlu, Awdurdodau Lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac Awdurdod Llafur Meistri Gangiau a Cham-drin.

<https://www.safeguarding.wales/chi/c6/c6.p3.html?highlight=slavery>

<https://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/>